# HYSBYSIAD AMRYWIO DYDDIEDIG 12 MEDI 2024: ITV WALES CYMRU

RHIF Y DRWYDDED C3000009

DEDDF CYFATHREBIADAU 2003 A DEDDF DARLLEDU 1990

HYSBYSIAD AMRYWIO

AMRYWIAD I'R DRWYDDED A DDYFARNWYD I ITV BROADCASTING LIMITED ("Y TRWYDDEDAI") I DDARPARU GWASANAETH CHANNEL 3 RHANBARTHOL O DAN RAN I O DDEDDF DARLLEDU 1990 (FEL Y'I DIWYGIWYD) DYDDIEDIG 17 RHAGFYR 2004 ("Y DRWYDDED") (FEL Y'I DIWYGIWYD)

**LLE BO'R**

A. Ar 19 Ebrill 2024 rhoddodd Ofcom newidiadau arfaethedig i'r Drwydded i'r Trwyddedai i ddileu darpariaethau sydd wedi dyddio (yn benodol yng nghyswllt gofynion sy'n ymwneud â'r rhaglen clirio teledu daearol digidol 700MHz) ac i wneud mân newidiadau drafftio amrywiol.
B. Rhoddodd Ofcom fanylion i'r Trwyddedai am fân newidiadau drafftio pellach ar 26 Mehefin 2024.
C. Ar 7 Mai a 27 Mehefin 2024, cadarnhaodd y Trwyddedai ei fod yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig.
D. Felly, mae Ofcom wedi rhoi cyfle rhesymol i'r Trwyddedai gyflwyno sylwadau i Ofcom am yr amrywiad arfaethedig.

**O DDYDDIAD YR HYSBYSIAD HWN YMLAEN, FELLY** bydd y Drwydded yn cael ei hamrywio fel a ganlyn:

1. Drwy ddileu'r Atodlen i'r Drwydded, a rhoi'r Atodlen sydd ynghlwm wrth yr amrywiad hwn yn ei lle.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei dehongli fel pe bai'n rhan o'r Drwydded a bydd yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr. Bydd y termau sydd ynddo â'r un ystyr ag yn y Drwydded oni nodir fel arall neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

**LLOFNODWYD AR GYFER OFCOM AC AR RAN OFCOM AR 12 MEDI 2024**



**Vikki Cook**

**Cyfarwyddwr Polisi Darlledu a'r Cyfryngau**